Cystadleuaeth y Fedal Ddrama Bl. 10 ac o dan 25ain oed

Beirniadaeth Gareth Evans-Jones

Diolch o galon i Eisteddfod yr Urdd am y gwahoddiad i gyd-feirniadu cystadleuaeth y Fedal Ddrama eleni gyda Mared Llywelyn. Roedd y broses o feirniadu yn wych, yn enwedig i hogyn o Fôn, ac roedd derbyn 15 sgript hynod ddiddorol hefyd yn wirioneddol arbennig. Diolch yn fawr iawn i bob un a ymgeisiodd am y Fedal Ddrama eleni – nid ar chwarae bach mae rhywun yn rhannu eu gwaith mewn cystadleuaeth o'r fath, felly diolch o galon ichi gyd. Mi wnes i wir fwynhau darllen pob sgript ac mi fuaswn yn annog pawb i ddal ati – gwyliwch gymaint o ddramâu amrywiol ag y gallwch, darllenwch gymaint o sgriptiau amrywiol, a daliwch i sgrifennu!

Dyma sylwadau ar bob ymgais yn ôl trefn y wyddor y ffugenwau.

Afon Teifi

'Y Waliau' gan Afon Teifi oedd y ddrama fwyaf theatrig a delweddol o'r holl sgriptiau a dderbyniwyd. Dyma ddramodydd uchelgeisiol sy'n awyddus i drafod pynciau dyrys ein hoes mewn cyd-destun dystopaidd, a gwych o beth ydy hynny. Er mwyn datblygu eu crefft ymhellach, buaswn yn annog Afon Teifi i ystyried yn fwy gofalus yr elfennau theatrig er mwyn sicrhau bod popeth yn gweithio'n effeithiol gyda'i gilydd, a gofalu am ddatblygiad cliriach i bob cymeriad. Dalier ati!

Blodwen

Mae 'Geiriau Di-lol' gan Blodwen yn ddrama sy'n llawn gwrthdaro a thyndra o'r dechrau'n deg. Mae i'r fonolog linellau cofiadwy a photensial gwirioneddol. Cofier mai da o beth ydy cael amrywiaeth o leisiau hyd yn oed gyda monolog er mwyn cyfoethogi'r sefyllfaoedd a ddarlunnir. Ar brydiau, cefais fy atgoffa o waith Sarah Kane wrth ddarllen 'Geiriau Di-lol' a buaswn yn annog Blodwen yn fawr i ddarllen dramâu grymus Kane.

Draig Ninja

Drama dyner ac annwyl am ddigartrefedd a hiraeth ydy 'Gobaith am Gartref' gan Draig Ninja. Mae'r ymwneud rhwng H, M ac O yn ddiddorol ac yn amrywio'n ddramatig. Efallai y gellid bod wedi datblygu'r cymeriadau ymhellach i fod ychydig yn fwy crwn, a gellid bod wedi cymryd ychydig fwy o ofal gyda'r deialogi. Buaswn yn argymell Draig Ninja i wylio a darllen mwy o ddramâu er mwyn gwerthfawrogi'r agweddau hyn ymhellach, a chyfoethogi eu sgrifennu eu hunain.

Dyfrgi

Mae 'Celf a Chrefft' gan Dyfrgi yn ddrama ddiddorol, sy'n dilyn dau gymeriad a'r croestynnu cyson rhyngddynt. Da iawn yn wir. Efallai, fodd bynnag, fod yma fymryn bach gormod yn

digwydd mewn drama fer gan yr ymdrinnir ag amryw themâu dwys, gan gynnwys anhwylderau bwyta a chamdriniaeth ddomestig, mewn byr o dro. Mae hefyd fymryn gormod o gyfeiriadau llwyfan drwyddi draw. Byddai'n werth bod yn fwy dethol gyda'r nifer a'r math o gyfeiriadau llwyfan a gynhwysir. Cofier bod cyfarwyddydd ynghlwm wrth bob cynhyrchiad.

## Estron

Mi gymerais at lais Catrin yn 'Y Tonnau' gan Estron o'r llinell gyntaf. Mae Estron yn ddramodydd a chanddynt glust at ddeialogi naturiolaidd. Yn ei hanfod, drama un cymeriad am brifiant a'r cyfnod trothwyol hwnnw cyn i rywun gyrraedd eu hugain oed ydy 'Y Tonnau', ac mae'n un allai gynnig her arbennig i actor gynnal yr agweddau amrywiol ar Catrin, a'r lleisiau niferus sy'n gweu drwy'r ddrama. Dyma ddramodydd hyderus a chrefftus. Efallai y gellid hepgor ambell ran a rhai llinellau yma ac acw er mwyn gwneud y ddrama'n dynnach, ond dyma ymgais hynod ddiddorol.

## Eurnos

Braf oedd gweld drama yn digwydd mewn cyfnod yn y gorffennol – yn y 1950au gan Eurnos wrth i 'Marwnad y Meibion' ddilyn hanes Wil ac Elfyn yn ymgodymu gyda galar a phrifiant. Mae'r ddrama'n llawn potensial a'r gwrthdaro rhwng y brodyr – dan yr wyneb ac yn echblyg – yn hynod ddiddorol. Er mwyn datblygu'r ddrama ymhellach, gellid meddwl am ffyrdd amgen, llai 'cyfarwydd', i ddatguddio gwirioneddau mawr y ddrama. Mae gan Eurnos lais addawol iawn.

## Flâneuse

Cyflwynwyd sefyllfa yn llawn drama a gwrthdaro o bob math – rhwng cymeriadau, gwrthdaro mewnol, a gwrthdaro ideolegol – gan Flâneuse. Ar yr olwg gyntaf, drama ddystopaidd ydy 'Y Byd Tu Fas', ond mae'n ddrama realaidd iawn sy'n ymdrin â safbwyntiau a bydolygon amrywiol, ac eithafiaeth grefyddol. Mae yma botensial am ddrama gyffrous ond bod angen mwy o ddatblygiad a gofod er mwyn gofalu am adeiladwaith briodol. Gwaith difyr iawn!

## HELENA

Drama fer a hynod aeddfed ydy 'Crafu'r Gwaelod' gan HELENA. Yn ddiau, mae yma sefyllfa ddramatig a thensiwn clir o'r dechrau'n deg wrth i Hefin, yr actor canol-oed a brofodd lwyddiant ers talwm, fod yn biwis yng nghwmni Rhiannon, y gyfarwyddwraig sydd ar ddechrau ei gyrfa. Yn sicr, mae yma botensial dramatig cyffrous. Efallai fod y ddrama, ar hyn o bryd, yn rhy fyr i ofalu am y datblygiad digonol; er enghraifft, gallai un olygfa ychwanegol fod wedi cyfrannu curiadau gwerthfawr i dempo'r stori. Ond mae yma botensial clir gan HELENA.

## Hogan Sy'n Trio

Drama dyner a gonest ydy 'Nodiadau' gan Hogan Sy'n Trio. Mae cymeriad Mari wir yn gredadwy ac yn rhywun mae'r gynulleidfa eisiau dilyn ei stori a dysgu mwy amdani. Mae gan Hogan Sy'n Trio glust at ddeialogi a'r gallu i sgrifennu'n ffraeth ac yn ddwys. Efallai fod y

ddrama fymryn yn rhy hir ar hyn o bryd ac y gellid bod wedi datblygu rhai o'r curiadau er mwyn awgrymu effaith y golled ddiweddar yn hytrach na chael datguddiad clir tua'r diwedd. Diolch am gystadlu a dwi'n edrych ymlaen at weld mwy gan Hogan Sy'n Trio!

### JARFIS

Mae JARFIS yn ddramodydd hynod gyffrous ac aeddfed. Ar un olwg, drama seml yw 'Tishie plant?', sy'n rhoi'r pwys ar ddatblygiad cymeriadau, curiadau'r ddrama, a deialog sy'n eithriadol naturiol. O'r herwydd, does dim lle i guddio, ac mae JARFIS yn llwyddo'n arbennig gyda'r ddrama naturiolaidd hon. Mae cymeriadau MARTHA ac EFAN wir yn argyhoeddi, wrth iddyn nhw ddisgwyl tu allan i stafell aros fferyllfa Boots yn dilyn cysgu gyda'i gilydd y noson flaenorol. Mae'r sefyllfa yn llawn tensiwn, yn llawn direidi, ac yn hynod gredadwy. Llwydda JARFIS i gyfleu'r ddrama mewn ffordd sy'n chwarae gyda'r dwys a'r digri'n effeithiol ac sy'n cadw draw rhag tir melodrama. Da iawn wir, JARFIS. Yr unig beth i nodi ydy efallai y gellid bod wedi rhoi teitl gwahanol i'r ddrama – un ychydig yn llai 'amlwg'. Ond hollti blew mân iawn ydy hyn gan fod y ddrama yn arbennig a JARFIS yn ddramodydd hynod gyffrous.

### Jemeima 1

Mae 'Nhw a Ni' gan Jemeima yn ddrama ddiddorol sy'n ymdrin â phwnc hynod bwysig, sef y tyndra rhwng aros yn eich milltir sgwâr neu symud ymaith. Mae yma botensial clir ond efallai y gellid bod wedi datblygu'r ddrama ymhellach. Er enghraifft, gellid bod wedi cael mwy o blethu llinellau Fe a Hi cyn cyrraedd golygfa 3 ('Nhw'), er mwyn codi chwilfrydedd yn y gynulleidfa a dwysáu'r ddrama.

### Jemeima 2

Drama sy'n llawn cyfrinachau, gwrthdaro a datguddiadau ydy 'Perthyn' gan Jemeima, sydd i'w canmol am fod mor uchelgeisiol. Mae gan Jemeima'r fath asbri wrth lunio cymeriadau a phlot, sy'n cydio yn chwilfrydedd y gynulleidfa yn syth. Efallai fod yma fymryn gormod, ar hyn o bryd, wedi'i gynnwys yn y ddrama, ac y gellid bod wedi gofalu am fwy o ofod ar gyfer datblygiad. Ond dyma ddrama ddiddorol iawn – diolch am gystadlu!

### Pluen

O linellau cyntaf 'Cyffro ac ychydig bach o ryddid ... o ryw fath!' gwelir mai dramodydd â llais hyderus ydy 'Pluen', wrth inni ddilyn Cynthia, merch 17 oed, yn pryfocio'r gynulleidfa ac yn dychanu'r byd o'i chwmpas. Efallai y gellid bod wedi datblygu strwythur y gwaith ymhellach er mwyn gofalu am adeiladwaith ddramatig fwy trawiadol. Hyd yn oed â monolog ddigri, mae lle i saernïo strwythur a datblygiad y cymeriad. Mae yma botensial diddorol. Diolch am gystadlu!

### Ty Llwyd

Mae 'Rhwng dau tir' gan Ty Llwyd yn ddrama sy'n ymdrin â themâu pwysig, gan gynnwys teulu a pherthyn, rhyfel a heddwch. Mae yma sefyllfa ddomestig ddiddorol sy'n ei chynnig ei hun i wrthdaro dramatig difyr. Teimlwn fod y golygfeydd, ar brydiau, yn eithaf llinol ac efallai

heb ddatblygiad clir. Roeddwn i hefyd yn gweld rhai agweddau tebyg i waith Caryl Churchill a buaswn yn argymell Ty Llwyd i ddarllen gwaith Churchill ymhellach.

### Y Wennol Fach

Gwledd o gymeriadau brith oedd cynnwys 'Car Bwtio'i' gan Y Wennol Fach. Mi wnes i wir fwynhau'r syniad o osod drama mewn sêl car bŵt a'r potensial a ddaw gyda hynny; felly hefyd y myrdd o gymeriadau lliwgar. Fodd bynnag, roeddwn i'n gobeithio efallai y buasai i'r ddrama haen ychwanegol, er enghraifft wrth iddi droi'n alegori economaidd neu gymdeithasol, neu droi'n ddystopaidd a swrealaidd ei naws, ond ni chafwyd hynny. O wneud hynny – neu gael agwedd 'arall', neu ddatblygiad storïol pellach – byddai'r gwaith a oedd yn llawn potensial wedi datblygu ymhellach. Dalier ati!

Diolch unwaith eto i bawb a gystadlodd. Mae yma, yn sicr, gnwd o ddramodwyr cyffrous iawn ac mi fuaswn yn annog pawb i wylio a darllen cymaint o ddramâu o bob math ag y gallen nhw! O feddwl yn ofalus a thrafod yn rhwydd gyda Mared, y sawl sy'n dod i'r brig – a hynny'n unfryd unfarn – ydy JARFIS oherwydd aeddfedrwydd y gwaith a'r grefft a ddangosodd fel dramodydd. Edrychaf ymlaen yn fawr at weld 'Tishie plant?' yn cael ei pherfformio'n fuan, ynghyd â rhagor o waith gan JARFIS!

Yn ail, mae Hogan Sy'n Trio am i'r dramodydd lwyddo i greu byd a chymeriad effeithiol a oedd yn ennyn cydymdeimlad. Yn drydydd – a bu cryn dynnu'r dorchen rhwng HELENA ac Estron, ond o drwch blewyn – HELENA sy'n mynd â hi. Ond da chi, dalier Estron ati i sgriptio a datblygu eu crefft! Mae yma lais cyffrous iawn.

Llongyfarchiadau enfawr, felly, i Hogan Sy'n Trio ac i HELENA, a llongyfarchiadau arbennig iawn i JARFIS am ennill Medal Ddrama Eisteddfod yr Urdd 2026, a phob clod a berthyn i'r wobr!

**Y Fedal Ddrama**

**Beirniadaeth Mared Llywelyn**

Yn gyntaf oll, diolch am y fraint o gael gyd-beirniadu cystadleuaeth y Fedal Ddrama eleni. Wrth edrych yn ôl ar yr holl waith tra'n ysgrifennu'r feirniadaeth, dyma sylweddoli bod hon wedi bod yn chwip o gystadleuaeth, a daw ton o falchder wrth weld pobl ifanc yn cofleidio byd y ddrama - yr oll mae'n gallu ei gynnig i ni, am ein byd, am ein gilydd, ac am ein hunain.

Diolch i bob un o'r ymgeiswyr - pymtheg i gyd - am eich gwaith. Roedd rhywbeth i'w fwynhau ac i gnoi cil ymhob un o'r darnau, ac rydym yn eich annog i gyd i gario ymlaen i sgwennu.

Roedd darllen y dramâu yn fewnwelediad i'r hyn sy'n tanio, ysbrydoli a phoenydio pobl ifanc heddiw - o iechyd meddwl, i ddyddiau cymhleth coleg, ein perthynas gyda'n gilydd a'n cymuned, i gyflwr ein byd heddiw. Rhaid canmol y dramodwyr am fynd i'r afael â phynciau dwys megis digartrefedd, dianc o gwlt,iechyd meddwl a'r alwad i fynd i ryfel. Ond cofiwch bod angen datblygu stori a datblygu cymeriadau os am fynd i'r afael â phynciau mor fawr ac astrus - mae angen caniatau lle i gymeriadau ddatblygu ac anadlu yn lle bod y stori neu'r thema ei hun yn eu llyncu nhw.

Mae'r dramâu'n disgyn i ddau ddosbarth, gyda Tŷ Llwyd, Pluen, Flâneuse, Eurnos, Dyfrgi, Draig Ninja, a Blodwen yn yr ail ddosbarth, a Jemeima, Y Wennol Fach, Afon Teifi, Helena, Estron, Hogan sy'n Trio a Jarfis yn y dosbarth cyntaf.

Y Wennol Fach - *Car Bwtio'i:*

Dyma ddrama ble roedd y deialogi'n serennu, ac yn llawn ffraethineb. Er i'r cymeriadau fod yn rai dychanol roedd rhywbeth diffuant iawn am y cymeriadu, ac roedd wedi dal naws y car bŵt i'r dim. Er hyn, nid oedd dim byd yma i'n herio - tybed sut effaith fyddai rhyw ddigwyddiad mawr wedi ei gael, neu rhy dro swréal? Mi fysa hynny'n gwneud i'r gynulleidfa feddwl a mynd a ni i dir cwbl wahanol.

Jemeima - *Nhw a Ni* a *Perthyn*:

Roedd *Nhw a Ni* wir wedi cydio, ac yn atgoffa rhywun o'r ddrama *Draenen Ddu / Blackthorn* gan Charley Miles. Roedd chwerwder y cymeriadau yn taro. Mae lle i'r dramodydd ddatblygu hon yn sicr. Efallai byddai mwy o ddeialog yn cynnig rhyddhad o'r blociau mor trwm o fonologau.

Roedd yna elfennau da iawn iawn yn *Perthyn*, ond mae angen ei ddatblygu. Digwyddai undod y teulu yn rhy hawdd tua'r diwedd, ac ar ôl yr heriau mawr mae 'na ddiweddglo twt, ond mae bywyd yn flêr, peidiwch bod ofn hynny.

Afon Teifi - *Y Waliau*

Dyma ddrama amserol, ddystopaidd, gweledol ac yn llawn symboliaeth. Mae breuder y byd gwleidyddol sydd ohoni'n gefnlen cryf yma. Hoffais bod y dramodydd yn ein tynnu i fyd yr absẃrd, ond bosib bod yr elfen theatrig wedi aros yn fwy na'r cymeriadau eu hunain, tybed oedd yr holl elfennau hyn yn rhy ddyrys? Byddai'n braf cael gwybod beth ddigwyddodd i'r cymeriadau wedyn. Dyma ddrama sy'n llawn potensial ac angen ei datblygu.

Helena - *Crafu'r Gwaelod*

Drama i ddau gymeriad - un ifanc, un hŷn. Hefin a Rhiannon. Actor sy'n hasbîn a chyfarwyddwraig ifanc yn gweithio ar gynhyrchiad o *Freuddwyd Noswyl Ifan* - ond y sgwrs gefn llwyfan ydi canolbwynt y ddrama yma. Fe hoeliodd ein sylw yn syth gyda deialogi oedd wedi'i saernio'n grefftus, yn hyderus ac aeddfed, a'r ddau gymeriad yn taflu perlau o eiriau at ei gilydd. Teimlo oeddan ni ein bod yn ysu am fwy, a bod gan y cymeriadau hyn llawer mwy i'w ddweud.

Hogan Sy'n Trio - *Nodiadau gan Hogan Sy'n Trio*

Monolog o bersbectif merch ifanc ynghanol profiadau Prifysgol. Yn syth bin, roeddwn yn dychmygu'r geiriau yma'n dawnsio ar y llwyfan - roedd yn teimlo'n theatrig iawn, sy'n gamp sgwennu monolog heb iddo deimlo'n statig.

Roedd y sgwennu ei hun yn gwbl wych, ond y *digwydd* oedd yn teimlo ar goll braidd. Roedd cael y datguddiad tua'r diwedd o brosesu galar yn gweithio - ond mae angen plannu'r hedyn o hyn drwyddi draw.

Estron - *Y Tonnau*

Dyma fonolog arall sydd yn yr un byd â *Hogan Sy'n Trio*, ond difyr wrth gwrs yw gweld arddull gwahanol sgwennwyr. Roedd y darn hwn wir wedi cydio o'r frawddeg gyntaf, ac roedd yr iaith yn llifo mewn ffordd lafar, rwydd gyda llais cymeriad Catrin yn gryf. Roedd yr olygfa yn nhonnau'r môr yn teimlo'n freuddwydiol a hyfryd o swréal, ond tybed oedd y cyfarfyddiad efo'r bachgen (di-enw) yn teimlo'n rhy hawdd? Mi fuasai awgrymiad o'i bresenoldeb yn ystod y noson ynghynt wedi bod yn ddefnyddiol. Heria ni fwy - mae hi bron yna!

Jarfis - *Tishe Plant?*

O'r holl ddramâu, heb os, hon oedd yn teimlo fel yr un fwyaf cyflawn a gorffenedig. Mae'r syniad yn syml ar yr olwg - hogan a hogyn yn eistedd mewn ystafell aros am morning after pill. Ond yn y syniad syml yma, ceir datguddiadau graddol, deialogi chwareus a llachar. Gallwn ddychmygu'r actorion yn cael dipyn o hwyl yn arborfi gyda'r lletchwithdod sydd rhyngddyn nhw! Dyma ddrama sydd rhywsut yn gadael teimlad cynnes, llawn gobaith ar ei ôl, heb fod yn or-sentimental.

Am wledd o ddramâu cafwyd, a bu yna bwyso a mesur dwys wrth drafod y rhai oedd yn cyrraedd y brig. Yn wir, credaf bod lle i wobrwyo pedair drama, ond nid yw hynny'n bosib yn anffodus. Ond, roedd enillydd amlwg yma, gyda drama gorffenedig, a deialog sy'n pefrio.

Jarfis sy'n cipio'r fedal ddrama eleni, gyda Hogan sy'n Trio yn ail, Helena yn drydydd - gyda Estron drwch blewyn ar eu holau.

Cofiwch, bob un ohonoch chi - i gario ymlaen i sgwennu.